


Dyma dy le

Prospectws Israddedig
2027

Ein campws



Cyfleuster academiaidd

- Canolfan Addysg Gofal Iechyd



Llety Myfyrwyr

- Pantycelyn



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Cyfleusterau academiaidd

- Adeilad Edward Llwyd
- Adeilad Gwendolen Rees
- Adeilad Llandinam
- Adeilad y Gwyddorau Ffisegol



Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol



Llety Myfyrwyr

- Penbryn
- Pentre Jane Morgan
- Fferm Penglais
- Rosser
- Cwrt Mawr
- Trefloyne



Llyfrgell Hugh Owen



Canolfan y Celfyddydau



Cyfleusterau academiaidd

- Penbryn P5
- Adeilad Hugh Owen
- Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Adeilad Parry-Williams



Undeb y Myfyrwyr



Adeilad academiaidd

- Adeilad Carwyn James



Cyfleuster academiaidd

- Adeilad Edward Davies (uwchben Parc Plascrug, yn y dref, ddim yn y golwg ar y map hwn)



Y Ganolfan Chwaraeon



Cyfleuster academiaidd

- Canolfan Addysg Milfeddygaeth (gyferbyn ag Adeilad Carwyn James, ddim yn y golwg ar y map hwn)



Cynnwys

Cyflwyniad

Dyma dy le	2
Croeso gan yr Is-Ganghellor	4
Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud?	5
Bywyd ar y campws	6
Cynaliadwyedd	10
Cymuned sy'n croesawu	11
Rhagoriaeth ymchwil	12
Dysgu trwy'r Gymraeg	14
Eich gradd	15

Bywyd myfyrwr

Darganfod Aberystwyth	54
Llety	58
Cyfleusterau chwaraeon	64
Undeb y Myfyrwyr	65
Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA)	66
Y Celfyddydau a diwylliant	68
Darganfod y byd yn Aberystwyth	69
Cwrdd â'ch gofynion dysgu	70
Cefnogi ein myfyrwyr	72
Gyrfaedd a chyflogadwyedd	73
Ffioedd a chyllid	74
Ysgoloriaethau a bwrsariaethau	75
Diwrnodau agored	76
Ymweld ag Aber	77
Gwybodaeth bwysig	78

Ein pynciau


Addysg ac Astudiaethau Plentynod	17
Amaethyddiaeth	18
Astudiaethau Gwybodaeth	19
Astudiaethau Milfeddygol	19
Biocemeg a Geneteg	20
Bioleg Ddynol ac Iechyd	21
Busnes a Rheolaeth	21
Celf	22
Cyfrifeg a Chyllid	23
Cyfrifiadureg	24
Cymdeithaseg	26
Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol	26
Drama a Theatr	28
Economeg	30
Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau	31
Ffiseg	32
Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol	33
Gwyddor Anifeiliaid a Gwyddor Ddyfrol	34
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff	36
Gwyddorau Ecolegol	37
Hanes	38
Ieithoedd Modern	39
Marchnata	40
Mathemateg	41
Nyrsio	42
Peirianeg	43
Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol	44
Seicoleg	45
Troseddeg	46
Y Biowyddorau	47
Y Gyfraith	48
Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd	49

Anrhydedd Cyfun a Phrif Bwnc/Is-Bwnc	50
--------------------------------------	----

Dyma dy le

Pam dewis Prifysgol Aberystwyth?

Ers 1872, rydym ni'n adnabyddus ledled y byd am ragoriaeth ein dysgu a'n hymchwil arloesol. Rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i'n cymuned gyfeillgar, allblyg. Prifysgol Aberystwyth yw'r lle i chi astudio, archwilio a datblygu.



THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

Prifysgol y Flwyddyn am Gynaliadwyedd

(Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times)

Ymhlith y 10 uchaf yn y DU am Ansawdd y Dysgu

(Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times)

Ar y brig yng Nghymru a Lloegr am Brofiad Myfyrwyr

(Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times)

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2026
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AM GYNALIADWYEDD

ACF

Ar y brig yng Nghymru am Fodlonrwydd Myfyrwyr am y 10fed flwyddyn yn olynol

Yn y 10 uchaf yn y DU am yr Addysgu ar fy Nghwrs

Yn y 5 uchaf yn y DU am Gymorth Academaidd

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025; O'i gymharu â Sefydliadau Addysg Uwch Canllaw Prifysgolion Da, The Times a'r Sunday Times)



Mae ein hymchwil yn cael effaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae 98% o'r ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch.

(Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021)



Sicrwydd o lety Prifysgol i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf

Mae ein llety hefyd yn cynnwys aelodaeth i'r gampfa, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan Chwaraeon a mynd i'r holl ddosbarthiadau am ddim.



Yn y 10 uchaf am Breswylfeydd a Llety Myfyrwyr (WhatUni? Gwobrau Dewis Myfyrwyr 2025)



Sgôr Sêr QS - 'Ardderchog' ym mhob un o'r naw categori, gan gynnwys addysgu, cynhwysiant, effaith amgylcheddol, cyflogadwyedd ac ymchwil.



Rydym yn brifysgol ryngwladol, gyda myfyrwyr o fwy na 100 o wledydd.



Cefnogi ein myfyrwyr

Gall ein tîm Cymorth i Fyfyrwyr eich helpu gyda hygyrchedd a chynhwysiant, lles myfyrwyr, cyngor gyrfaedd, cymorth fisa, a chyllid myfyrwyr.

unesco

Aberystwyth Ceredigion yw Dinas Greadigol a Dinas Llên UNESCO gyntaf Cymru



Lleoliad eithriadol i'ch astudiaethau

Yn sefyll ar arfordir y Gorllewin, rhwng brynau'r Canolbarth a'r môr, mae Aberystwyth yn cynnig y lleoliad perffaith i fyw ac astudio ynddo.



Graddau achrededig

Mae llawer o'r cyrsiau rydyn ni'n eu cynnig wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol, i gydnabod eu hansawdd, sy'n gwella eich rhagolygon o gael swydd ar ôl graddio.

Cadwch lygad am y logo ar dudalennau'r cwrs yn y prospectws hwn.

Bonjour

Cyfoethogi eich astudiaethau

Byddwch yn cael cyfle i astudio dramor, mynd ar brofiad gwaith, dysgu iaith neu astudio cwrs Dysgu Gydol Oes ochr yn ochr â'ch astudiaethau.

Croeso

Mae dewis y brifysgol sy'n addas ar eich cyfer chi yn un o benderfyniadau mawr bywyd. Nid y cwrs yn unig sy'n bwysig, ond hefyd dod o hyd i rywle y byddwch chi'n mwynhau byw ac astudio ynddo, lle gallwch ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y cyfnod nesaf yn eich bywyd, lle gallwch ffynnu yn academiaidd a datblygu fel person. A minnau'n Is-Ganghellor ar Brifysgol Aberystwyth, ac yn un o raddedigion Aberystwyth fy hun, credaf mai dewis ein prifysgol ni yw un o'r dewisiadau gorau y gallwch chi ei wneud.

Mae Aberystwyth yn cynnig y cydbwysedd perffaith rhwng addysg o safon a bywyd myfyriwr gwych, ac yn cyrraedd y brig ar dablau cynghrair allweddol yn gyson. Yn y prospectws hwn, fe welwch dystiolaeth o'n gwobrau a'n hanrhyddedau drwyddo draw, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr blynyddol yn cadarnhau bod ein myfyrwyr ymhlith y rhai mwyaf bodlon yn y DU.

Wrth astudio yn Aberystwyth, byddwch yn dod yn rhan o gymuned academiaidd sy'n ymroddedig i newid bywydau er gwell trwy fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf allweddol y byd a darparu atebion iddynt. Cewch eich dysgu gan academyddion sydd ar flaen y gad yn eu disgyblaethau, gan roi i chi'r addysg fwyaf cyfoes wedi'i llywio gan yr ymchwil ddiweddaraf. Yn ogystal, cewch eich cefnogi drwy gydol y cyfnod gan staff ymroddedig a fydd yn canolbwyntio ar eich helpu i ffynnu ym mhob agwedd o'ch bywyd myfyriwr.

Byddwch hefyd yn astudio yn un o ardaloedd mwyaf prydferth y DU. Gyda'r arfordir a'r mynyddoedd ar garreg ein drws, mae ein hamgylchedd yn darparu lleoliad delfrydol ar gyfer astudio a chymdeithasu. Mae Aberystwyth ei hun yn dref gyfeillgar ac amrywiol lle mae myfyrwyr o bob cwr o'r byd yn cael eu croesawu a'u gwahoddi i ymgartrefu.

Os byddwch yn dewis Prifysgol Aberystwyth, fe brofwch gymuned gynhwysol a chefnogol sy'n croesawu myfyrwyr o bob cefndir, lle mae pob unigolyn yn bwysig i ni. Rwy'n credu'n gryf mai dyma eich lle i dyfu'n academiaidd ac yn bersonol, gwireddu eich potensial a chreu argraff ar y byd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Brifysgol Aberystwyth, cysylltwch â ni. Byddem hefyd wrth ein bodd yn eich croesawu i ddiwrnod agored, lle byddwch yn cael cwrdd â'n staff a'n myfyrwyr a darganfod pam maen nhw wedi dewis Aberystwyth.

Dymunaf y gorau i chi wrth i chi benderfynu ar eich prifysgol - rydych chi'n dechrau ar un o deithiau mwyaf cyffrous bywyd a gobeithiwn y byddwch chi'n dewis dod ar y daith honno gyda ni.



Yr Athro Jon Timmis
Is-Ganghellor



Beth mae ein myfyrwyr yn ei ddweud?



Rebecca Rees

BA Y Gyfraith a Chymraeg Proffesiynol

Dewisais astudio'r Gyfraith a Chymraeg Proffesiynol yn Aberystwyth oherwydd naws gartrefol y brifysgol, yn ogystal â'r dref, ble o'r noson gyntaf deimlais fel preswilydd lleol, ac fel pe bawn wedi gafael fy lle.

Yn sicr, roedd cynigion hael y brifysgol o ysgoloriaethau wedi fy nenu i oherwydd tra byw mewn argyfwng costau byw, roedd y cymorth ariannol ychwanegol yn atyniadol iawn, ac yn dangos o'r cychwyn fod Aberystwyth eisiau gwarchod ei myfyrwyr.

Roedd y cwrs wedi tynnu fy sylw oherwydd ei fod e'n darparu llawer o amrediad o ran sgiliau ar gyfer cyflogadwydd, ac roedd gallu astudio'r Gyfraith drwy'r Gymraeg hefyd yn bwysig imi.

Mae fy mhrofiad academiaidd yma wedi bod yn gyfoethog iawn o ganlyniad cefais hyfforddiant oddi wrth arbenigwyr yn eu meysydd, ac roedd amrywiaeth y modiwlau hefyd yn gwneud imi deimlo fel fy mod i'n cael digon o gyfleoedd a gwerth i'm arian.



Ruby Morse

BA Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dewisais astudio yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth oherwydd ei henw da, hirsefydlog fel canolbwynt rhagoriaeth academiaidd, lle mae'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn wych, ac mae'n gartref i'r adran cysylltiadau rhyngwladol gyntaf o'i math yn y byd!

Uchafbwyntiau astudio fy nghwrs hyd yma oedd cael y cyfle i fynd i sesiwn banel holi ac ateb, wyneb yn wyneb gyda Mary Jordan a Kevin Sullivan, cyd-olygyddion y Washington Post, a gwneud cais am le ar gynllun lleoliad seneddol yr adran, cynllun sy'n uchel ei barch.

Rwyf wrth fy modd yn byw yn Aberystwyth! Mae'n gydbwysedd perffaith o'r bywiog a thawel, a bywyd nos a champws prysur, ac ar yr un pryd mae mewn lleoliad glan môr hardd â phrydferthwch naturiol diddiwedd o fewn cyrraedd rhwydd. Mae Aberystwyth yn gymuned ddiogel a chlos, ag wynebau cyfeillgar a chyfarwydd ym mhob man rydych chi'n mynd!

Bywyd ar y campws

Bydd popeth sydd ei angen arnoch o fewn cyrraedd hwylus ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Mae'r campws hefyd o fewn pellter cerdded o dref a phromenâd enwog Aberystwyth.

Ar y campws ceir llety myfyrwyr, bwytai a chaffis, Undeb y Myfyrwyr, cyfleusterau dysgu ac astudio gan gynnwys dwy lyfrgell, Canolfan y Celfyddydau a'r Ganolfan Chwaraeon. Yn ogystal â hyn, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (sy'n llyfrgell hawlfraint) y drws nesaf i'r campws.



Adeilad Gwendolen Rees ar Gampws Penglais yw cartref Adran y Gwyddorau Bywyd a chaffi CAFFIBach. Drws nesaf iddo mae adeilad Edward Llwyd, lleoliad y prif labordai a'r ystafelloedd dysgu.



Y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth yw cartref y cyrsiau Gwyddor Milfeddygaeth a Nyrsio Milfeddygol.



Yr adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol - cartref ein Hadrannau Hanes a Hanes Cymru, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.



Adeilad Parry-Williams yw cartref Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu'r Brifysgol.



Adeilad Edward Davies sy'n gartref i'r Ysgol Gelf, taith fer o Gampws Penglais.



Yr adeilad hwn, P5, yw lleoliad yr Adrannau Astudiaethau Gwybodaeth, Seicoleg, a'r Ysgol Addysg.



Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'n Hadrannau Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.



Adeilad Hugh Owen - cartref yr Ysgol Fusnes, a'r Adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, y Gyfraith a Throsedddeg, ac Ieithoedd Modern, yn ogystal â phrif lyfrgell y Brifysgol.



Mae adeilad Carwyn James yn gartref i'r adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.



Adeilad Llandinam - cartref yr Adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Chyfrifiadureg.



Mae'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd yn gartref i'n cyrsiau nyrsio.

Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn bwysig iawn i ni ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Rydym ni'n falch o fod yn un o'r prifysgolion cyntaf yn y DU i gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2019, gan gydnabod yr angen i gefnogi'r trawsnewid i ddyfodol carbon isel. Ein nod yw sicrhau ystâd carbon sero-net erbyn 2030.

I gydnabod ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, fe'n henwyd yn 'Brifysgol y Flwyddyn am Gynaliadwyedd' gan The Times a'r Sunday Times (Canllaw Prifysgolion Da 2026).

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES

**CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2026**

**PRIFYSGOL Y
FLWYDDYN AM
GYNALIADWYEDD**



Rydym yn aelod o gonsortium o 20 o brifysgolion o'r DU sydd wedi taro borgen ynni gwyrdd nodedig gwerth £50 miliwn, i leihau ein hallyriadau a'n hól troed carbon fel rhan o gytundeb pŵer prynu cyfun.



Dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi lleihau ein hallyriadau CO₂ 40%.



Rydym wedi buddsoddi £2.9 miliwn mewn casgliad solar newydd gyda 4,500 o baneli solar a fydd yn lleihau ein hallyriadau CO₂ ychydig dros 500 tonnall bob blwyddyn.



Rydym wedi gosod ystod o bwyntiau gwefru ceir a beiciau trydan ar draws ein campysau.



Rydym wedi buddsoddi bron i £7miliwn dros y 4 blynedd diwethaf mewn mesurau effeithlonrwydd ynni.



Yn ddiweddar rydym wedi codi cromen chwaraeon newydd ar y campws sydd yn cynnwys offer hunan-bweru i gyfyngu ar ein hól troed carbon.



Rydym yn aml yn cynnal arolwg bioamrywiaeth ar draws ein hystâd i helpu i nodi, diogelu a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd o'n cwmpas.



Mae gennym ardd gymunedol ar gampws Penglais i fyfyrwyr ac aelodau staff ddysgu am dyfu bwyd a phlannu mewn modd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.



Rydym wedi cwblhau Cam 2 ein cynllun plannu coed, gyda 16,000 o goed llydanddail brodorol wedi'u plannu ar draws 3 safle. Ar ôl aeddfedu, disgwylir i'r coetir hwn gynyddu bioamrywiaeth a gwrthbwyso allyriadau carbon y Brifysgol o oddeutu 16 tonnall y flwyddyn.



Mae gennym ddolydd blodau gwyllt ar draws y campws i wella bioamrywiaeth.

greenimpact

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi ennill safon 'Ardderchog' ar gyfer y wobwr Effaith Werdd, y safon uchaf bosib.



Mae gennym lawer o orsafoedd ail-lenwi dŵr am ddim ar draws y campws i leihau'r angen am boteli plastig untro.

Cymuned sy'n croesawu

Rydym yn falch iawn o'n cymuned glos, yn y Brifysgol a'r dref. Er ein bod yn gymharol fach, rydym yn gymuned amrywiol a chroesawgar, sy'n cynrychioli ystod eang o gefndiroedd, diwylliannau a chredoau.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i greu diwylliant cynhwysol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, yn dathlu amrywioldeb, a lle mae pawb o'n cymuned yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Ategir yr ymrwymiad hwn gan Strategaeth y Brifysgol a'r cynlluniau ategol ar Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant a Phobl.

Credwn fod yn rhaid inni sicrhau bod pawb, ni waeth pwy ydyn nhw, yn cael yr un cyfleoedd. Rhaid inni hefyd sicrhau bod rhwystrau diwyllianol, megis gwahaniaethu a diffyg goddefgarwch, yn cael eu chwalu. Fel myfyrwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd ein hamgylchfyd cynhwysol yn eich cefnogi i gyrraedd eich potensial, gwneud ffrindiau newydd a bod yn chi'ch hunan.

LHDTC+

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amgylchedd cefnogol, cynhwysol a diogel lle gallwch ddathlu'r hyn sy'n eich gwneud chi'n chi a bod yn chi'ch hunan.

Mae cymdeithas myfyrwyr AberPride yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd ac yn cynnig cefnogaeth i'w haelodau, drwy wrando a chynnig cyngor ar faterion LHDTC+ amrywiol, neu eu cynorthwyo i gysylltu ag elusennau neu sefydliadau eraill. Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith staff LHDTC+ a dyfarnwyd Gwobr Aur Stonewall iddi, ac mae ymhlith 100 cyflogwr cynhwysol LHDTC+ gorau'r DU.

Athena Swan ac AU Ymlaen

Mae Prifysgol Aberystwyth yn dal Gwobr Efydd Athena Swan AU Ymlaen, siarter sy'n cael ei harwain gan y sector sy'n cydnabod ymrwymiad prifysgolion i ddatblygu cydraddoldeb rhywedd ar gyfer eu staff a'u myfyrwyr. Mae'r Brifysgol hefyd wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil i gydnabod ei hymrwymiad i wella cynrychiolaeth a chynhwysiant staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.




Cyflogwr hyderus o ran anabledd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gyflogwr hyderus o ran anabledd, lle mae gwasanaethau allweddol yn gweithio ar y cyd ar draws y Brifysgol a chyda gwasanaethau allanol i gynnig amrywiaeth o gymorth ac adnoddau i bob myfyrwr, ni waeth pa heriau y gallech eu hwynebu.



Rhagoriaeth ymchwil



(Llun: European Space Agency)



Caiff Prifysgol Aberystwyth ei harwain gan ymchwil ac mae'n dathlu creu gwybodaeth, dylanwadu, dyfeisgarwch a chynnewid gwybodaeth.

Mae ymchwil yn sylfaen i'r gwaith dysgu, yn bwydo ein haddysg ac yn cyfoethogi'ch profiadau dysgu. Byddwch yn cael eich dysgu a'ch mentora gan staff sy'n dylanwadu ar ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwrdd ac sy'n ymestyn terfynau ein gwybodaeth.

Mae ymchwil yn Aberystwyth o fudd i'r gymdeithas ehangach ac yn edrych allan ar y byd ac ymlaen tua'r dyfodol. Effeithia'r ymchwil ar yr economi, yr amgylchedd, ar bolisi cyhoeddus ac ar fywyd diwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Trwy feithrin partneriaethau masnachol, mae ein hymchwil yn helpu i ddatblygu cynnyrch, prosesau a thechnegau newydd a all helpu pawb i fyw bywydau gwell.

Mae'r gwaith yn amrywio o fynd i'r afael â newid hinsawdd, gwella ansawdd a dulliau cynhyrchu bwyd, hybu iechyd pobl ac anifeiliaid, i ddatblygu deallusrwydd artifisial a helpu i ddatblygu'r gwaith o archwilio'r gofod. Mae ein hymchwilyr ar y rheng flaen o ran arloesedd ac mae buddiannau rhyngwladol eang wedi deillio o ddylanwad ac effaith ein hymchwil.

Cynlluniau ymchwil diweddar

- Defnyddio modelau cyfrifiadurol 3D a thechnegau dysgu peirianyddol i ragweld yn gywir sut olwg fydd ar ganlyniadau llawdriniaethau ar wefus a thafod hollt ymhlith plant ymhen pump neu ddeng mlynedd.
- Defnyddio systemau robotig ac awtonomaidd i fonitro bioamrywiaeth ar y tir.
- Dadansoddi samplau carthion o boblogaeth y dolffiniaid ym Mae Ceredigion gan ddefnyddio'r technegau DNA amgylcheddol diweddaraf (eDNA) i echdynnu data manwl am eu deiet.
- Dogfennu symudiadau wynebâu ceffylau i ddeall eu hemosiynau, eu bywydau cymdeithasol a'u lles yn well.
- Datblygu ap ffôn symudol sy'n defnyddio deallusrwydd artifisial i roi rhybuddion cynnar am glefydau mewn tatws.
- Datblygu dulliau newydd o reoli'r llyngyr parasitig sy'n achosi haint llyngyr yr afu ymhlith da byw.
- Datblygu pecyn cymorth o fesurau ymarferol y gall ffermwyr llaeth ddewis eu mabwysiadu mewn ymgaes i leihau ôl troed carbon eu buches.
- Creu adnoddau addysgol i ddisgyblion ysgol am oroeswyr yr Holocaust a ffoaduriaid a wnaeth Gymru yn gartref iddynt.
- Monitro llwyddiant y gwaith o ail-gyflwyno ail famal mwyaf prin Prydain, y bele.

Dysgu trwy'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ffyrdd hyblyg ac mewn ystod eang iawn o bynciau – ymysg y dewis ehangaf yng Nghymru. Gellir astudio rhai o'n graddau yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth yn addas iawn i fyfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â'r rheini sy'n llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae'n bosib astudio rhai modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg ar rai o'n cyrsiau cyfrwng Saesneg, ac mae gan bawb yr hawl i gyflwyno eu gwaith drwy'r Gymraeg.

Cewch wybodaeth am ba gyrsiau y gellir eu hastudio yn Aberystwyth ar dudalennau 16-53, gan gynnwys manylion ynglŷn â chanran y ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Ceir gwybodaeth gyfredol lawn ar ein gwefan.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy ymaelodi â'r Coleg Cymraeg cewch wybodaeth am gyfleoedd dysgu, digwyddiadau a gweithgareddau yn ogystal â dysgu mwy am Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg.

Addewidion Aber

- Cyfleoedd i gyflwyno gwaith cwrs yn Gymraeg a sefyll arholiadau yn Gymraeg
- Gwarant o Diwtor Personol sy'n siarad Cymraeg
- Profiad gwaith dwyieithog
- Gwarant o lety cyfrwng Cymraeg
- Cyfleoedd i ddysgu neu wella dy Gymraeg
- Aelodaeth o UMCA am ddim

Ysgoloriaethau

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig ystod o ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cwrs neu'r cwrs cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai myfyrwyr sy'n astudio mwy na 5 credyd yn y Gymraeg hefyd fod yn gymwys ar gyfer ein Bwsariaeth Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: colegcymraeg.ac.uk ac aber.ac.uk/ysgoloriaethau



Eich gradd

Dyma'r opsiynau gradd sydd ar gael ym Mhrifysgol Aberystwyth:

Graddau Baglor anrhydedd sengl

Gallwch arbenigo mewn un pwnc yn benodol. Mae'r rhain fel arfer yn para tair blynedd, er bydd myfyrwyr ieithoedd yn treulio blwyddyn ychwanegol dramor. Gellir astudio nifer o'n graddau dros gyfnod o bedair blynedd, gan gynnwys blwyddyn mewn diwydiant neu flwyddyn yn astudio dramor.

Graddau Baglor anrhydedd cyfun

Mae'r rhain yn eich galluogi i astudio dau bwnc yn gyfartal, gan rannu'ch amser rhwng dwy adran wahanol. Mae'r rhain fel arfer yn para tair blynedd, ac mae ein detholiad eang yn eich galluogi i astudio pynciau cyflenwol, felly nid oes raid i chi ddewis rhwng eich ffefrynnau.

Graddau Baglor Prif Bwnc/Is-Bwnc

Mae'r graddau hyn yn cynnig sylfaen gadarn mewn un ddisgyblaeth ynghyd â'r fantais o astudio un pwnc arall sydd o ddiddordeb i chi. Fel arfer mae'r rhain yn para tair blynedd, a byddwch yn treulio dwy ran o dair yn astudio'ch prif bwnc, ac un rhan o dair yn astudio'r is-bwnc.

Graddau anrhydedd baglor gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant

Fel arfer, mae'n para pedair blynedd a byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn gweithio mewn diwydiant cyn mynd yn ôl i Aberystwyth yn y bedwaredd flwyddyn i orffen eich gradd. Mae'r flwyddyn mewn diwydiant yn elfen a asesir o'r cwrs, ac fe allech gael y dewis i wneud y lleoliad gwaith dramor pe byddech yn hoffi hynny.

Graddau anrhydedd baglor gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor

Fel arfer, mae'n para pedair blynedd a byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn yn astudio dramor cyn mynd yn ôl i Aberystwyth yn y bedwaredd flwyddyn i orffen eich gradd. Mae'r flwyddyn yn astudio dramor yn elfen a asesir o'r cwrs.

Graddau anrhydedd baglor â blwyddyn sylfaen integredig

Graddau yw'r rhain ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y radd arferol, ac mae'r flwyddyn sylfaen sydd wedi'i chynnwys yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau academaidd i ddechrau ar y cwrs yr ydych wedi'i ddewis yn eich ail flwyddyn. Felly, bydd eich cwrs yn bedair blynedd o hyd yn hytrach na thair blynedd, ond bydd eich benthyciad myfyrwr yn cynnwys y flwyddyn ychwanegol.

Graddau Meistr Integredig

Mae'r rhain yn caniatáu ichi integreiddio tair blynedd o astudio israddedig gyda blwyddyn arall o astudio ar lefel ôl-raddedig sy'n arwain at gymhwyster Meistr. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyrwr dros bedair blynedd ar gyfer y graddau hyn, yn hytrach na chwilio am gyllid ychwanegol ar ôl cwblhau eich gradd gyntaf.

Graddau sylfaen

Mae graddau sylfaen fel rheol yn ddwy i dair blynedd o hyd, ac yn cyfuno astudiaethau academaidd â sgiliau ymarferol, y gallwch eu defnyddio yn y gweithle. Wrth gwblhau'r graddau hyn yn llwyddiannus gallwch symud ymlaen yn uniongyrchol i flwyddyn olaf rhai cyrsiau. Yn Aberystwyth, ar hyn o bryd rydym yn cynnig graddau sylfaen mewn Amaethyddiaeth a Nyrsio Milfeddygol.

Eich gradd – sut mae'n gweithio

- Mae eich gradd yn cynnwys amrywiaeth o fodiwlau ar wahanol bynciau. Mae modiwlau craidd yn orfodol, ond gallwch ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau dewisol, pan fyddant ar gael.
- Byddwch yn cael eich dysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, tiwtorialau, gwaith ymarferol, gwaith maes neu weithdai, gan ddibynnu pa gwrs yr ydych wedi'i ddewis.
- Gall y dulliau asesu gynnwys gwaith cwrs, arholiadau, sesiynau ymarferol yn y labordy, asesu eich cyfraniad at waith grŵp a chyflwyniadau seminar, a gwaith prosiect.



Sganiwch y cod QR hwn
am fwy o wybodaeth.

aber.ac.uk/ein-cyrsiau

Ein pynciau

Rhestrir ein graddau anrhydedd sengl ar y tudalennau canlynol yn ôl pwnc. Rhestrir cyrsiau anrhydedd cyfun a phrif bwnc/is-bwnc ar wahân ar dudalen 50.

Pwyntiau UCAS

Noder bod y pwyntiau UCAS a roddir yn ddangosol yn unig. Mae gan rai cyrsiau ofnion penodol i'r pwnc. Hefyd, fel rheol mae gan ein cyrsiau leiafswm gofynnol o radd TGAU. Edrychwch ar ein gwefan i weld ein gofynion mynediad llawn, yn ogystal â manylion y cymwysterau a dderbyniwn, gan gynnwys gofynion iaith Saesneg ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol.

Mae ein polisi derbyn cynhwysol yn rhoi gwerth ar ehangder yn ogystal â dyfnder yr astudio. Dewisir ymgeiswyr ar sail eu teilyngdod eu hunain a gall cynigion amrywio. Os hoffech wirio a yw eich cymwysterau yn gymwys cyn cyflwyno cais, cysylltwch â'r Swyddfa Derbyn ar derbyniadau@aber.ac.uk / +44 (0) 1970 622021.

Graddau achrededig

Mae gan lawer o'n graddau achrediad proffesiynol, a nodir gan ✓ yn y golofn berthnasol. Ceir rhagor o fanylion ar-lein.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig llawer o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff rhai cyrsiau eu cyflwyno'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod eraill yn cynnig modiwlau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ein tablau o gyrsiau'n dangos canran pob cwrs y gellir ei hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Noder, gall y canrannau hyn newid ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau yn 2027. Dylech edrych ar broffil y cwrs ar ein gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.



Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

aber.ac.uk/astudio-addysg

Yn yr Ysgol Addysg, rydym yn credu mewn dysgu sy'n cysylltu, yn cefnogi ac yn grymuso. Byddwch yn ymuno â chymuned fywiog o addysgwyr, arloeswyr ac ymarferwyr, gan feithrin cysylltiadau ar draws ysgolion, cyflogwyr, elusennau, y llywodraeth a'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr ledled y byd. Ar ein cyrsiau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, cewch gyfleoedd i ymgymryd â lleoliadau arsylwi* ac ennill profiad ymarferol. Gyda chymorth academaidd a lles wedi'i bersonoli, ni fyddwch byth ar eich pen eich hun ar eich taith ddysgu. Ein nod yw eich galluogi i rannu gwybodaeth, dylanwadu ac ysbrydoli eraill, gyda hyder, profiad ymarferol a dealltwriaeth ddofn o addysg gynhwysol.

Mae lleoliadau arsylwi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

* Bydd myfyrwyr ar y cwrs Statws Ymarferydd Blynnyddoedd Cynnar yn ymgymryd â dros 700 awr mewn lleoliad ymarferol dros y 3 blynedd.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg†	Tariff UCAS
Addysg	X304	BA	3 blynedd		72%	120-96
Addysg gyda Blwyddyn Sylfaen	X34F	BA	4 blynedd		67%	48
Astudiaethau Plentyndod	X324	BA	3 blynedd		72%	112-96
Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynnyddoedd Cynnar	X325	BA	3 blynedd		78%	120-96**

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosectws.

** Mae angen gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad cyfwerth ar gyfer y cwrs hwn.

Ar y brig yn y DU am Brofiad Myfyrwyr ym mhwc Addysg

(Canllaw Prifysgolion Da 2024, The Times a'r Sunday Times)



Amaethyddiaeth

aber.ac.uk/amaethyddiaeth



Mae ein cyrsiau amaethyddiaeth yn ymdrin â phob agwedd ar amaethyddiaeth a systemau cynhyrchu amaethyddol, gan roi dealltwriaeth fanwl i chi o'r dirwedd ffermio newidiol. Mae ein myfyrwyr yn defnyddio ffermydd y Brifysgol yn helaeth, sy'n ymestyn i dros 800 hectar ac sy'n cynrychioli sbectrwm cyflyrau tyfu'r DU.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Amaethyddiaeth	H21Y	BSc	3 blynedd		67%	120-96
Amaethyddiaeth (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	D401	BSc	4 blynedd		67%	120-96
Amaethyddiaeth (gyda blwyddyn integredig astudio dramor)	H23Y	BSc	4 blynedd		67%	120-96
Amaethyddiaeth (Meistr Integredig)	D404	MAg	4 blynedd		44%	128-120
Amaethyddiaeth (Ategol)	H22Y	BSc	1 flwyddyn		67%	*
Amaethyddiaeth	D402	FdSc	2 flynedd		67%	96-72
Amaethyddiaeth (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	D403	FdSc	3 blynedd		67%	96-72
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid	53C8	BSc	3 blynedd		65%	120-96
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	D4D3	BSc	4 blynedd		67%	120-96
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid (Meistr Integredig)	D4D4	MAg	4 blynedd		44%	128-120
Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes	D4N2	BSc	3 blynedd		65%	120-96
Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	4D12	BSc	4 blynedd		65%	120-96
Bioleg Planhigion	C200	BSc	3 blynedd	✓	57%	120-104**
Bioleg Planhigion gyda Blwyddyn Sylfaen	C201	BSc	4 blynedd	✓	31%	48
Bioleg Planhigion (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	C202	BSc	4 blynedd	✓	57%	120-104**
Bioleg Planhigion gyda Blwyddyn Sylfaen (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	C20F	BSc	5 mlynedd	✓	-	48

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prospectws.

* Gweler y gofynion mynediad ar-lein.

** Noder bod gan y cyrsiau hyn ofnion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

Yn y 5 uchaf yn y DU

am Fodlonrwydd Myfyrwyr ym maes Amaethyddiaeth a Choedwigaeth

(Complete University Guide 2026)



Astudiaethau Gwybodaeth

aber.ac.uk/astudiaethau-gwybodaeth



Mae ein gradd achrededig broffesiynol yn cynnig hyfforddiant mewn rheoli a defnyddio gwybodaeth, adnoddau treftadaeth, archifau a chofnodion mewn fformatau digidol a ffisegol. Rydym yn ffodus i gael un o'r llyfrgelloedd mwyaf yn y byd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, o fewn tafliad carreg, sef un o'r pum sefydliad hawlfraint â'r hawl i dderbyn copi o bob llyfr a gyhoeddir ym Mhrydain.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol: Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd	V700	BA	3 blynedd	✓	33%	120-96

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prospectws.



Astudiaethau Milfeddygol

aber.ac.uk/astudiaethau-milfeddygol



Aberystwyth yw'r Ysgol Filfeddygaeth gyntaf, a'r unig un, yng Nghymru, ac mae ein myfyrwyr yn elwa o gyfleusterau rhagorol, gan gynnwys Clinig Hyfforddiant Milfeddygol newydd. Mae ein myfyrwyr Gwyddor Milfeddygaeth (BVSc) hefyd yn mwynhau cyfle unigryw i hyfforddi mewn dau sefydliad addysgol a gwyddonol blaengar: Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Gwyddor Milfeddygaeth	D105	BVSc	5 mlynedd		40%	*
Nyrsio Milfeddygol	D31F	FdSc	3 blynedd		0%	96**

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prospectws.

* Dylai ymgeiswyr Gwyddor Milfeddygaeth gyflwyno eu cais i'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (R84) yn hytrach na Phrifysgol Aberystwyth. Gweler ein gwefan am wybodaeth lawn gan gynnwys gofynion mynediad a phrofiad gwaith gorfodol.

** Gweler ein gwefan am wybodaeth lawn, gan gynnwys y gofyniad i fod wedi ymgymryd â chyfanswm penodol o brofiad gwaith perthnasol.



2il yn y DU am Brofiad Myfyrwyr ym mhwc Gwyddor Anifeiliaid

(Canllaw Prifysgolion Da 2026, The Times a'r Sunday Times)





Biocemeg a Geneteg

aber.ac.uk/biocemeg-geneteg



Gyda phwyslais ar sgiliau ymarferol, mae ein cyrsiau'n ymdrin ag ystod eang o bynciau gan gynnwys moleciwlau, microbau, parasitiaid, planhigion, anifeiliaid a phobl. Mae ein graddau hefyd ar gael gyda blwyddyn mewn diwydiant i roi profiad ymarferol i chi sy'n cyd-fynd â'ch astudiaethau, a sicrhau eich bod gam ar y blaen yn y farchnad swyddi ar ôl graddio.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Biocemeg	C700	BSc	3 blynedd	✓	28%	120-104*
Biocemeg gyda Blwyddyn Sylfaen	C70F	BSc	4 blynedd	✓	19%	48
Biocemeg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	C701	BSc	4 blynedd	✓	28%	120-104*
Biocemeg (Meistr Integredig)	C709	MBiol	4 blynedd	✓	21%	128-120*
Biocemeg gyda Blwyddyn Sylfaen (Meistr Integredig)	C79F	MBiol	5 mlynedd	✓	15%	48
Geneteg	C400	BSc	3 blynedd	✓	32%	120-104*
Geneteg gyda Blwyddyn Sylfaen	C40F	BSc	4 blynedd	✓	21%	48
Geneteg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	C401	BSc	4 blynedd	✓	32%	120-104*
Gwyddor Fiofeddygol	B900	BSc	3 blynedd		17%	120-104*
Gwyddor Fiofeddygol gyda Blwyddyn Sylfaen	B90F	BSc	4 blynedd		12%	48
Gwyddor Fiofeddygol (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	B901	BSc	4 blynedd		17%	120-104*

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosiectws.

* Noder bod gan y cyrsiau hyn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

Yn y 5 uchaf yn y DU

am fodlonrwydd â'r Asesu ym mhwc Bioleg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion The Guardian 2025)

Yn y 10 uchaf yn y DU

am Ansawdd yr Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym mhwc Gwyddorau Biolegol

(Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times)



Bioleg Ddynol ac Iechyd

aber.ac.uk/bioleg-ddynol-iechyd



Mewn byd lle mae clefydau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw ar gynydd, mae deall effaith ffordd o fyw ar iechyd pobl yn dod yn hollbwysig. Mae ein cyrsiau'n ystyried y prif heriau iechyd sy'n wynebu pobl, gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau labordy ac ymarferol a fydd yn eich paratoi ar gyfer gwaith mewn amrywiaeth o feysydd gofal iechyd.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Gwyddor Fiofeddygol	B900	BSc	3 blynedd		17%	120-104*
Gwyddor Fiofeddygol gyda Blwyddyn Sylfaen	B90F	BSc	4 blynedd		12%	48
Gwyddor Fiofeddygol (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	B901	BSc	4 blynedd		17%	120-104*
Gwyddor Iechyd (Maeth ac Ymarfer Corff)	B994	BSc	3 blynedd	✓	17%	120-104*
Gwyddor Iechyd (Maeth ac Ymarfer Corff) (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	B995	BSc	4 blynedd	✓	17%	120-104*
Gwyddor Iechyd (Maeth ac Ymarfer Corff) gyda Blwyddyn Sylfaen	B996	BSc	4 blynedd	✓	12%	48

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosiectws.

* Noder bod gan y cyrsiau hyn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

Yn y 5 uchaf yn y DU

am fodlonrwydd â'r Asesu ym mhwc Bioleg

(Tabl Cynghrair Prifysgolion The Guardian 2025)



Busnes a Rheolaeth

aber.ac.uk/busnes-rheolaeth



Mae ein graddau busnes a rheolaeth wedi'u llunio ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau llwyddo ar y lefel uchaf o ran arferion rheoli busnes byd-eang. Byddwch yn meithrin profiad busnes academiaidd ac ymarferol i ddatblygu eich sgiliau, dealltwriaeth a chyflogadwydd. Mae'n ein cyrsiau wedi'u hachredu hefyd, sy'n golygu bod myfyrwyr yn graddio gyda chymhwyster a gydnabyddir yn broffesiynol.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Busnes a Newid Hinsawdd	FN71	BSc	3 blynedd	✓	45%	120-96
Busnes a Rheolaeth	N122	BSc	3 blynedd	✓	60%	120-96
Busnes a Rheolaeth gyda Blwyddyn Sylfaen	N12F	BSc	4 blynedd	✓	45%	48
Busnes a Rheolaeth (Ategol)	N12T	BSc	1 flwyddyn		17%	*
Cyllid Busnes	N310	BSc	3 blynedd	✓	24%	120-96
Cyllid Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen	N31F	BSc	4 blynedd	✓	18%	48
Economeg Busnes	L113	BSc	3 blynedd		37%	120-96
Economeg Busnes gyda Blwyddyn Sylfaen	L11F	BSc	4 blynedd		28%	48


† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosiectws.

* Gweler y gofynion mynediad ar-lein.

Ar y brig yn y DU

am fodlonrwydd gyda'r Addysgu ym maes Busnes a Rheolaeth

(Tabl Cynghrair Prifysgolion The Guardian 2026)



Mae'r Ysgol Gelf wedi'i lleoli mewn adeilad rhestredig Gradd II, ac mae'n cyfuno traddodiad ag arfer cyfoes wrth ddysgu celf a'i hanes.



Celf
aber.ac.uk/astudio-celf

Mae ein staff yn artistiaid medrus a haneswyr celf, sy'n darparu addysg ymarferol i chi sy'n seiliedig ar sgiliau. Gyda dewis eang o fodiwlau, mae gan fyfyrwyr Celfyddyd Gain fynediad i'w gofodau stiwdio eu hunain lle gallant ddatblygu eu crefft; rydym yn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer gyrfaedd ar draws y celfyddydau gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol mewn paentio, darlunio, gwneud printiau, lluniadu a ffotograffiaeth. Mae ein Hysgol Gelf yn amgueddfa gelf achrededig sy'n rhedeg ei horielau ei hun, sy'n golygu y bydd myfyrwyr Hanes Celf yn elwa o astudio mewn amgylchedd amgueddfa, lle gallwch weld y gweithiau celf gwreiddiol a gedwir yn ein casgliad ac a arddangosir yn ein horielau.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Celfyddyd Gain	W100	BA	3 blynedd		0%	120-104*
Hanes Celf	V350	BA	3 blynedd		0%	120-96

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prospectws.
* Noder bod gan y cwrs hwn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno portffolio boddhaol. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

Yn y 10 uchaf yn y DU am fodlonrwydd gyda'r Addysgu a'r Asesu ym mhwn Celfyddyd Gain (Tabl Cynghrair Prifysgolion The Guardian 2025)



Cyfrifeg a Chyllid
aber.ac.uk/cyfrifeg-cyllid



Mae pob un o'n cyrsiau gradd yn y gyfraith yn cael eu dysgu gan academyddion sydd â chefnidir cryf yn ymarfer y gyfraith ac mewn ymchwil, a nhw sy'n cyflwyno saith sylfaen gwybodaeth gyfreithiol i'n myfyrwyr. Maent yn darparu sail gadarn yn y gyfraith ar gyfer yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr a Chwrs Ymarfer y Bar. Mae amrywiaeth o ddewis i'r unigolyn, cyflogadwyedd, a phrofiad o fywyd go iawn i gyd wedi'u hymgorffori yn ein hystod eang o fodiwlau dewisol, ein lleoliadau gwaith, a'r cyfleoedd a gynigir i fod yn weithwyr achos yn ein clinig Cyfraith Teulu a'n prosiectau ymchwil.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Cyfraith Busnes	M140	LLB	3 blynedd		73%	128-104
Cyfraith Droseddol	M131	LLB	3 blynedd		73%	128-104
Cyfraith Statws Uwch	M104	LLB	2 flynedd		88%	*
Hawliau Dynol	M990	LLB	3 blynedd		67%	128-104
Y Gyfraith	M100	LLB	3 blynedd		79%	128-104
Y Gyfraith	M103	BA	3 blynedd		79%	128-104
Y Gyfraith gyda Blwyddyn Sylfaen	M10F	LLB	4 blynedd		79%	48
Y Gyfraith a Throseddeg	MM91	LLB	3 blynedd		81%	128-104

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosiectws.
* Gweler y gofynion mynediad ar-lein.

Roedd **90%** o fyfyrwyr y Gyfraith yn gadarnhaol am y Cymorth Academiaidd a gawsant
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025)




Yr Ystafell Ddarllen yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd wrth ymyl Campws Penglais.



Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

aber.ac.uk/y-gymraeg-astudiaethau-celtaidd



Aberystwyth Ceredigion yw'r lle cyntaf yng Nghymru i gael ei bennu'n Ddinas Greadigol a Dinas Llên UNESCO, sy'n golygu mai hi yw'r lle perffaith i astudio y Gymraeg a'i llenyddiaeth, a'r ieithoedd Celtaidd eraill. Yma, ac yn y fro gyfagos, ceuch un o gadarnleoedd y Gymraeg. O ran yr ieithoedd Celtaidd, ein darpariaeth ni yn yr Adran yw'r ehangaf yn y byd. Trwy gyfrwng ein cyrsiau amrywiol, mae ein myfyrwyr yn cyrraedd lefelau cyflogaeth ardderchog ac yn chwarae rhan bwysig yn yr ymgyrch i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Teitl y cwrs	Cod UCAS	Math o radd	Hyd	Wedi'i hachredu	% ar gael drwy'r Gymraeg †	Tariff UCAS
Astudiaethau Celtaidd	Q500	BA	4 blynedd		85%	120-104
Cymraeg	Q560	BA	3 blynedd		100%	120-104*
Cymraeg (i ddechreuwyrr)	Q522	BA	4 blynedd		88%	120-104
Cymraeg a'r Ieithoedd Celtaidd	Q562	BA	3 blynedd		100%	120-104*
Cymraeg Proffesiynol	Q5P0	BA	3 blynedd		100%	120-104*

† Dyma ganran y cwrs sydd ar gael i'w hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar adeg cyhoeddi'r prosiectws.
* Noder bod gan y cyrsiau hyn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

Yn y 3 uchaf yn y DU yn y pwnc Astudiaethau Celtaidd
(Complete University Guide 2026)

Anrhydedd Cyfun a Phrif Bwnc/Is-Bwnc

Mae'r holl gyrsiau anrhydedd cyfun yn para 3 blynedd. Yr eithriadau yw'r holl gyrsiau sy'n cynnwys iaith ac A1C6 Seicoleg a Throseddeg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant), sy'n 4 blynedd o hyd.

Pwnc	Ar gael gyda	Graddau Cyfun	Prif/ Is-bwnc	Math o radd	Modiwlau Cymraeg ar gael	Tariff UCAS
Addysg	Cymraeg	Q5X3		BA	✓	120-104*
	Drama a Theatr	W4X3		BA	✓	120-96
	Hanes	VX14		BA	✓	120-96
	Llenyddiaeth Saesneg	Q3X3		BA	✓	120-104
	Mathemateg	GX15	GX14	BSc	✓	120-104*
	Sbaeneg		XR04	BA	✓	120-104
	Seicoleg	C8X3		BSc	✓	120-96
Busnes a Rheolaeth	Cyfrifeg a Chyllid	N4N1		BSc	✓	120-96
	Cyfrifiadura	NG14		BSc	✓	120-96
	Economeg	L1N1		BSc	✓	120-96
	Ieithoedd Modern	NR90		BSc	✓	120-104
	Marchnata	N5N1		BSc	✓	120-96
	Mathemateg	GN11		BSc	✓	120-104*
	Y Gyfraith	MN11		LLB	✓	128-104
Celfyddyd Gain	Ffilm a Theledu	WW16		BA	✓	120-104**
	Hanes Celf	WV13	W1V3	BA		120-104**
	Llenyddiaeth Saesneg	WQ13		BA		120-104**
	Ysgrifennu Creadigol	WW18		BA		120-104**

Pwnc	Ar gael gyda	Graddau Cyfun	Prif/ Is-bwnc	Math o radd	Modiwlau Cymraeg ar gael	Tariff UCAS
Cyfrifeg a Chyllid	Cyfrifiadura	NG34		BSc	✓	120-96
	Economeg	N4L1		BSc	✓	120-96
	Mathemateg	GN94		BSc	✓	120-104*
	Rheolaeth a Busnes	N4N1		BSc	✓	120-96
	Y Gyfraith	MN14		LLB	✓	128-104
Cyfrifiadureg	Busnes a Rheolaeth	NG14		BSc	✓	120-96
	Cyfrifeg a Chyllid	NG34		BSc	✓	120-96
	Daearyddiaeth Ffisegol	FG84		BSc	✓	120-96
	Mathemateg	GG14		BSc	✓	120-104*
Cymraeg	Addysg	Q5X3		BA	✓	120-104*
	Cysylltiadau Rhyngwladol	5FQL		BA	✓	120-104*
	Daearyddiaeth	LQ75		BA	✓	120-104*
	Hanes	QV51		BA	✓	120-104*
	Mathemateg	GQ15		BA	✓	120-112*
Cymraeg Proffesiynol	Y Gyfraith	MQ56		LLB	✓	128-104*
Cysylltiadau Rhyngwladol	Cyfyngau	3P2L		BA	✓	120-96
	Cymraeg	5FQL		BA	✓	120-104*
	Drama a Theatr	42WL		BA	✓	120-96
	Economeg	21LL		BSc	✓	120-96
	Hanes	1FVL / 2DLV		BA	✓	120-96
	Ieithoedd Modern	RL90		BA	✓	120-104
	Y Gyfraith	21LM		LLB	✓	128-104
Daearyddiaeth	Cymraeg	LQ75		BA	✓	120-104*
Daearyddiaeth Ffisegol	Cyfrifiadureg	FG84		BSc	✓	120-96
	Mathemateg	FG81		BSc	✓	120-104*
Drama a Theatr	Addysg	W4X3		BA	✓	120-96
	Cysylltiadau Rhyngwladol	42WL		BA	✓	120-96
	Ffilm a Theledu	WW64		BA	✓	120-96
	Hanes	WV41		BA	✓	120-96
	Ieithoedd Modern	RW90		BA	✓	120-104
	Mathemateg	GW14		BA	✓	120-104*
	Ysgrifennu Creadigol	W841		BA	✓	120-104

* Noder bod gan y cyrsiau hyn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

** Bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno portffolio boddhaol ar gyfer y cyrsiau hyn.

Pwnc	Ar gael gyda	Graddau Cyfun	Prif/ Is-bwnc	Math o radd	Modiwlau Cymraeg ar gael	Tariff UCAS
Economeg	Cyfrifeg a Chyllid	N4L1		BSc		120-96
	Cysylltiadau Rhyngwladol	21LL		BSc	✓	120-96
	Gwleidyddiaeth	LL13		BSc	✓	120-96
	Mathemateg	GL91		BSc	✓	120-104*
	Rheolaeth a Busnes	L1N1		BSc	✓	120-96
Ffilm a Theledu	Celfyddyd Gain	WW16		BA	✓	120-104**
	Drama a Theatr	WW64		BA	✓	120-96
	Llenyddiaeth Saesneg	QW36		BA	✓	120-104
	Mathemateg	GW16		BA	✓	120-104*
	Ysgrifennu Creadigol	WP83		BA	✓	120-104
Ffiseg	Mathemateg	FG31		BSc	✓	120-112*
Gwleidyddiaeth	Economeg	LL13		BSc	✓	120-96
Hanes	Addysg	VX14		BA	✓	120-96
	Cymraeg	QV51		BA	✓	120-104*
	Cysylltiadau Rhyngwladol	1FVL / 2DLV		BA	✓	120-96
	Drama a Theatr	WV41		BA	✓	120-96
	Ieithoedd Modern	RV90		BA	✓	120-104
	Llenyddiaeth Saesneg	QV31		BA	✓	120-104
	Mathemateg	GV11		BA	✓	120-104*
	Ysgrifennu Creadigol	WV81		BA	✓	120-104
Ieithoedd Modern	Busnes a Rheolaeth	NR90		BSc	✓	120-104
	Cysylltiadau Rhyngwladol	RL90		BA	✓	120-104
	Drama a Theatr	RW90		BA	✓	120-104
	Hanes	RV90		BA	✓	120-104
	Llenyddiaeth Saesneg	QR90		BA		120-104
	Marchnata	NR91		BSc	✓	120-104
	Mathemateg	RG90		BA	✓	120-104
	Y Gyfraith	RM90		LLB	✓	120-104
	Ysgrifennu Creadigol	WR90		BA		120-104
Llenyddiaeth Saesneg	Addysg	Q3X3		BA	✓	120-104
	Celfyddyd Gain	WQ13		BA		120-104**
	Cyfryngau	P3Q3		BA		120-104
	Ffilm a Theledu	QW36		BA	✓	120-104
	Ieithoedd Modern	QR90		BA		120-104
	Hanes	QV31		BA	✓	120-104

Pwnc	Ar gael gyda	Graddau Cyfun	Prif/ Is-bwnc	Math o radd	Modiwlau Cymraeg ar gael	Tariff UCAS
Marchnata	Busnes a Rheolaeth	N5N1		BSc	✓	120-96
	Ieithoedd Modern	NR91		BSc	✓	120-104
	Seicoleg	NC58		BSc	✓	120-96
Mathemateg	Addysg	GX15	GX14	BSc	✓	120-104*
	Busnes a Rheolaeth	GN11		BSc	✓	120-104*
	Cyfrifeg a Chyllid	GN94		BSc	✓	120-104*
	Cyfrifiadureg	GG14		BSc	✓	120-104*
	Cymraeg	GQ15		BA	✓	120-112*
	Daearyddiaeth Ffisegol	FG81		BSc	✓	120-104*
	Drama a Theatr	GW14		BA	✓	120-104*
	Economeg	GL91		BSc	✓	120-104*
	Ffilm a Theledu	GW16		BA	✓	120-104*
	Ffiseg	FG31		BSc	✓	120-112*
Sbaeneg	Hanes	GV11		BA	✓	120-104*
	Ieithoedd Modern	RG90		BA	✓	120-104
	Addysg		XR04	BA	✓	120-104
Seicoleg	Addysg	C8X3		BSc	✓	120-96
	Marchnata	NC58		BSc	✓	120-96
	Troseddeg	CM89		BSc	✓	120-96
	Troseddeg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	A1C6		BSc	✓	120-96
Troseddeg	Seicoleg	CM89		BSc	✓	120-96
	Seicoleg (gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant)	A1C6		BSc	✓	120-96
Y Cyfryngau	Cysylltiadau Rhyngwladol	3P2L		BA	✓	120-96
	Llenyddiaeth Saesneg	P3Q3		BA		120-104
	Ysgrifennu Creadigol	P3W8		BA		120-96
Y Gyfraith	Cyfrifeg a Chyllid	MN14		LLB	✓	128-104
	Cymraeg Proffesiynol	MQ56		LLB	✓	128-104*
	Cysylltiadau Rhyngwladol	21LM		LLB	✓	128-104
	Ieithoedd Modern	RM90		LLB	✓	120-104
	Rheolaeth a Busnes	MN11		LLB	✓	128-104
Ysgrifennu Creadigol	Celfyddyd Gain	WW18		BA		120-104**
	Cyfryngau	P3W8		BA		120-96
	Drama a Theatr	W841		BA	✓	120-104
	Ffilm a Theledu	WP83		BA	✓	120-104
	Hanes	WV81		BA	✓	120-104
	Ieithoedd Modern	WR90		BA		120-104

* Noder bod gan y cyrsiau hyn ofynion sy'n benodol i'r pwnc. Gweler ein gwefan i gael yr wybodaeth lawn.

** Bydd gofyn i chi hefyd gyflwyno portffolio boddhaol ar gyfer y cyrsiau hyn.


Darganfod Aberystwyth



Aberystwyth yw'r lle perffaith ar gyfer dysgu a byw. Nid yw'r campws ond taith fer ar droed o'r dref lan môr hanesyddol, sy'n aml yn cael ei galw'n brifddinas diwylliant Cymru.

Mae llên a chreadigrwydd mewn amryw o ffurfiau, yn Gymraeg a Saesneg, yn rhan annatod o fywyd bob dydd yma, ac mae Aberystwyth Ceredigion yw Dinas Greadigol a Dinas Llên UNESCO gyntaf Cymru.

Mae Aberystwyth yn dref fywiog, groesawgar a chynhwysol, sy'n adnabyddus am ei hawyrgylch gyfeillgar. Gyda siopau, caffis, bwytaï a bariau ar bob cornel, mae'n dref myfyrwyr go iawn. Gan gynnig digon o fannau bywiog i ymweld â nhw, ymlacio a dadflino, mae Aberystwyth yn darparu profiad heb ei ail i fyfyrwyr. Hon hefyd oedd y dref gyntaf yng Nghymru i ennill Baner Borffor am ei bywyd nos diogel a chroesawgar.




Mae'r promenâd Fictoriaidd yn ymestyn am 2km ar hyd glan môr Aberystwyth, a dyma'r lle perffaith i ymestyn eich coesau a mwynhau'r machlud. Ar ben pellaf y prom, mae Craig Glais (a elwir yn 'Consti' gan bobl leol) yn cynnig golygfa arbennig o'r dref gyfan a glan y môr.

Rhwng y Pier Brenhinol o'r 19eg ganrif, sy'n enwog am ei haid ysbennedd o ddrudwy sy'n ymgasglu yno pan fo hi'n nosi, a'r castell canoloesol o'r 12fed ganrif, saif yr Hen Goleg, adeilad rhestredig Gradd Un a man sefydlu Coleg cyntaf Prifysgol Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r adeilad eiconig hwn yn cael ei drawsnewid yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol flaenllaw i Gymru.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn adnodd gwerthfawr i fyfyrwyr. Gyda thros 6.5 miliwn o lyfrau a chyfnodolion, mae'n gartref i gasgliadau mwyaf y wlad o archifau, portreadau, mapiau a delweddau ffotograffig, gan gynnig cyfoeth helaeth o ddeunydd ar gyfer ymchwil a darganfod.


Rhwng mynyddoedd y Canolbarth a glannau Bae Ceredigion, mae Aberystwyth wedi'i hamgylchynu gan dirwedd garw o fryniau, dyffrynnoedd, traethau a'r môr. Mae'n lleoliad gwych ar gyfer gweithgareddau awyr agored megis cerdded, beicio, syrrffio a nofio, ac mae Parciau Cenedlaethol Eryri, arfordir Sir Benfro a Bannau Brycheiniog oll o fewn pellter gyrru hawdd ar gyfer taith undydd.



Yr Hen Goleg, sef prif adeilad y Brifysgol pan gafodd ei sefydlu yn 1872.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Castell Aberystwyth



Y Pier Brenhinol

Llwybr Arfordir Cymru



Clwb Rhwyfo Môr Myfyrwyr



Harbwr Aberystwyth



Craig Glais

Marchogaeth ceffylau
ar draeth Ynyslas

Tua 9 milltir y tu allan i
Aberystwyth mae canolfan feicio
mynydd a bwydo barcutiaid
enwog Nant yr Arian.

Llety

Eich cartref nesaf



Sganiwch yma i ddysgu mwy am ein llety neu ewch i aber.ac.uk/astudio-gyda-ni/llety

**Aelodaeth o'r
Ganolfan Chwaraeon
yn rhad ac am ddim.**



**Sicrwydd llety yn y
flwyddyn gyntaf.***



Mae gan Brifysgol Aberystwyth llety sy'n sicrhau gwerth rhagorol am arian, a gydnabyddir fel rhai o'r llety mwyaf fforddiadwy yn y DU. Gydag amrywiaeth o opsiynau sy'n bodloni gwahanol chwaeth a chyllidebau, gellir cerdded o ganol y campws i bob preswylfa mewn dim o dro.



Wedi'u cynllunio i ddarparu mannau diogel ar gyfer astudio, cymdeithasu ac ymlacio, mae ein ffioedd llety yn cynnwys diogelwch 24 awr, cyfleustodau, Wi-Fi, yswiriant cynnwys personol, a hyd yn oed aelodaeth am ddim i'r gampfa, sy'n rhoi mynediad i gyfleusterau a dosbarthiadau'r Ganolfan Chwaraeon ar y campws.

Mae'r opsiynau'n amrywio o ystafelloedd en-suite hunanarlwyo a chyfleusterau a rennir i stiwdios hunangynhwysol, gyda llety arlwyio ar gael i fyfyrwyr Cymraeg. Mae myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn sicr o gael lle, gan sicrhau pontio llyfn i fywyd prifysgol. Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, bydd y Tîm Llety yn barod i'ch croesawu i'ch cartref newydd.

Mae ceisiadau'n agor yn y gwanwyn ar gyfer deiliaid cynigion sydd wedi dewis Prifysgol Aberystwyth yn ddewis Cadarn.

Noder y gall yr opsiynau llety newid yn y blynyddoedd academiaidd sydd i ddod; am y manylion diweddaraf, ewch i www.aber.ac.uk/llety.

Allwedd

-  Llety arlwyio
-  Wi-Fi
-  Cawod en-suite
-  Parcio
-  Golchdy
-  Llety Cymraeg penodedig
-  Mannau cymdeithasu ac astudio

*I fod yn gymwys, rhaid i'ch cais ddod i law erbyn 1 Medi yn y flwyddyn mynediad a rhaid i chi ymateb i'r cynnig llety erbyn y dyddiad a nodwyd yn y cynnig. Noder y caiff lle mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi ei warantu, ond nid y math penodol o ystafell neu leoliad.



Arlwyo (Cyfrwng Cymraeg)

Pantycelyn



- Llety arlwyo yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda ffreutur, lolfa, a mannau astudio a chymdeithasu.
- Ystafelloedd sengl, en-suite.
- 3 munud ar droed o gampws Penglais.



Hunanarlwyo

Fferm Penglais



- Fflatiau penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.
- Ystafelloedd en-suite sengl (gyda gwely dwbl), mewn fflatiau i 6-8 myfyriwr sy'n rhannu cegin/ardal fyw.
- Stiwdios sengl hunangynhwysol hefyd ar gael.
- Siop a chaffi ar y safle, ynghyd â mannau cymdeithasu ac astudio.
- 5 munud ar droed o gampws Penglais.



Hunanarlwyo



Trefloyne



- Ystafelloedd sengl, mewn flatiau i 7 myfyriwr.
- Rhannu adnoddau cymunedol.
- Defnydd o Lolfa @ Rosser.
- Wedi'i leoli ar gampws Penglais.

Rosser



- Ystafelloedd sengl, en-suite, mewn flatiau i hyd at 8 myfyriwr.
- Rhannu adnoddau cymunedol.
- Defnydd o Lolfa @ Rosser.
- Wedi'i leoli ar gampws Penglais.



Hunanarlwyo



Cwrt Mawr



- Ystafelloedd sengl, mewn flatiau i 6-10 myfyriwr.
- Rhannu adnoddau cymunedol, a chegin llawn cyfarpar.
- Defnydd o Lolfa @ Rosser.
- Wedi'i leoli ar gampws Penglais.



Pentre Jane Morgan



- Ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr.
- Rhannu adnoddau cymunedol.
- Defnydd o Lolfa @ PJM.
- 5 munud ar droed o gampws Penglais.



Cyfleusterau chwaraeon

Fel Prifysgol sydd wedi ymrwymo i iechyd a lles myfyrwyr, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Dyna pam y mae myfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol yn cael aelodaeth am ddim i'r Ganolfan Chwaraeon, sy'n golygu cael mynediad i'r holl ddosbarthiadau a'r adnoddau heb gost.

Mae ein Canolfan Chwaraeon wedi'i lleoli ar y campws ac mae'n gartref i amrywiaeth o gyfleusterau, gan gynnwys campfa hunan-bweru, wal ddringo, pwll nofio, cae 3G a thrac rhedeg. Gall myfyrwyr hefyd gael mynediad i'n campfa 24/7 ar safle ein llety yn Fferm Penglais.



Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn Aberystwyth yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol, ond mae'n elusen gofrestredig annibynnol. Wedi'i arwain gan fyfyrwyr a gyda chefnogaeth tîm o staff, mae Undeb y Myfyrwyr yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr gymdeithasu, adeiladu cymunedau a lleisio eu barn am amrywiaeth o faterion.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn gartref i dros 100 o glybiau a chymdeithasau - Aberystwyth yw'r lle i ddilyn diddordebau oes a darganfod diddordebau newydd.

Mae'r Gwasanaeth Cyngori yn darparu cyngor diduedd, rhad ac am ddim mewn amgylchedd proffesiynol a chyfeillgar. Gallwch gael cymorth gydag ystod o faterion gan gynnwys cyflogaeth, iechyd a lles, tai, cyllid myfyrwyr a gweithdrefnau a phrosesau'r Brifysgol.



UMCA

Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth



Os hoffech fyw ac/neu astudio yn Gymraeg yma yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o'r gymuned glos sydd yma heb ymuno ag UMCA neu'r Geltaidd, neu'r ddau.

UMCA yw'r undeb cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae ganddo brofiad helaeth o ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol a gwarchod eu hawliau. Erbyn heddiw, mae'n fudiad dylanwadol iawn sydd â llais a chynrychiolaeth ar rai o brif bwyllgorau'r Brifysgol.

Gweithgareddau

Mae UMCA yn cefnogi nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill poblogaidd megis y Geltaidd (prif gymdeithas chwaraeon Gymraeg Prifysgol Aberystwyth), Aelwyd Pantycelyn, Plaid Cymru Ifanc ac Undeb Cristnogol Cymraeg Aberystwyth.

Trefnir nifer o weithgareddau gan UMCA ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Llywydd a Swyddog Amgen Pwyllgor Gwaith UMCA yn cydweithio'n agos â'r Coleg er mwyn sicrhau bod gennym amryw o weithgareddau sydd at ddant pawb.

UMCA a'r Gymraeg

Nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y mae UMCA. Cynigia UMCA hefyd wersi Cymraeg am ddim i fyfyrwyr ac wrth ymuno ag UMCA gall yr aelodau ddysgu am iaith a diwylliant Cymru.

Llais y myfyrwyr

Etholir Llywydd UMCA gan gorff cyfan fyfyrwyr y Brifysgol yn etholiadau blynyddol yr Undeb, ac mae'n swydd sabothol amser llawn. Mae gan y Llywydd bwyllgor gwaith gweithgar iawn y tu cefn iddynt ynghyd â Bwrdd Ymgynghorol i graffu ar weithgaredd UMCA.

Cefnogaeth

Mae UMCA yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud yn fawr o'u hamser yn Aberystwyth ac yn cynnig cymorth gydag unrhyw broblem sy'n poeni'r aelodau. Mae UMCA yn ychwanegu at brofiad myfyrwyr o fyw trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

Llywyddiannau Eisteddfodol

Bob blwyddyn mae myfyrwyr o Aberystwyth yn amlwg ar lwyfan eisteddfodau, yn enwedig Eisteddfod yr Urdd. Mae ein myfyrwyr yn aml yn dod i'r brig naill ai fel unigolion neu fel grwpiau mewn meysydd fel llenyddiaeth, canu, dawnsio a pherfformio.

Wythnos y Glas

Pan gyrhaeddych y Brifysgol ym mis Medi, cewch brofi Wythnos y Glas - wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu a drefnir gan UMCA. Bydd myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar rai o'r gweithgareddau, sy'n golygu y byddwch yn dod i adnabod trawsdoriad eang o fyfyrwyr erbyn diwedd yr wythnos gyntaf.



Côr Aelwyd Pantycelyn



Tîm pêl-droed bechgyn y Geltaidd




Tîm rygbi merched y Geltaidd

Y Celfyddydau a diwylliant



Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw un o'r rhai mwyaf yng Nghymru. Wedi'i lleoli yng nghanol ein campws, mae'r Ganolfan yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i'n myfyrwyr gymryd rhan a mwynhau'r celfyddydau. Mae'r Ganolfan yn gartref i sinema, theatr, stiwdio ac orielau, yn ogystal â bar, bwyty a siop.



Cerddoriaeth yn Aberystwyth

Mae'r ddarpariaeth gerddoriaeth yn Aberystwyth yn agored i bob myfyriwr. Pa bwnc bynnag yr ydych yn ei astudio fe'ch gwahoddir i fod yn rhan o gymdeithas gerddorol fywiog.

Mae'r Brifysgol yn cynnig gofodau ymarfer a chyfleoedd am hyfforddiant. Mae ein myfyrwyr ac aelodau'r gymuned yn dod at ei gilydd fel ensembles, cerddorfeydd, bandiau cyngerdd a chorau yn ogystal ag mewn grwpiau llai i offerynnau penodol.



Darganfod y byd yn Aberystwyth



Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi astudio neu weithio dramor tra byddwch yn astudio ar gyfer eich gradd.

Mae ein tîm Cyfleoedd Byd-eang yn cydweithio â rhwydwaith byd-eang o dros 150 o sefydliadau, gan alluogi ein myfyrwyr i ennill profiadau a fydd yn ehangu eu dysgu ac yn gwella eu cyflogadwyedd.

Mae'r cyfleoedd yn cynnwys astudio mewn prifysgol bartneriaethol am semester neu flwyddyn, gweithio dramor yn ystod lleoliad blwyddyn mewn diwydiant, ac astudio neu weithio dramor am gyfnod byr (o dri diwrnod i wyth wythnos).

Manteision astudio a gweithio dramor:

- Gwella eich sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Datblygu eich gallu i addasu a'ch gwynnwch
- Cynyddu eich parodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd rhyngwladol
- Datblygu cysylltiadau parhaol a chyfeillgarwch gydol oes
- Manteisiol i'ch gyrfa.

Cefnogaeth wedi'i theilwra

Rydym yn sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth cyn gadael, tra byddwch dramor ac wrth ddychwelyd. Rydym yn eich cynorthwyo i sicrhau cyllid, ac mae'r holl fyfyrwyr yn derbyn yswiriant teithio Prifysgol Aberystwyth i dalu am eu hamser dramor.



Sganiwch yma am fwy o wybodaeth neu ewch i: aber.ac.uk/bydeang

Cwrdd â'ch gofynion dysgu



Rydym yn buddsoddi'n barhaus yn ein cyfleusterau er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn gallu defnyddio adnoddau modern a hygyrch.

Mae gan y Brifysgol ddwy lyfrgell ar y campws, sy'n cynnig ystod o fannau astudio ac ystod eang o ddeunyddiau print ac electronig i gefnogi addysgu, dysgu ac ymchwil ar draws pob pwnc ac adran. Mae yna hefyd ystod o fannau astudio deinamig, gan gynnwys lolfeydd astudio anffurfiol ac ystafelloedd preifat y gellir eu harchebu.

Mae wifi cyflym a dibynadwy ar gael ledled y campws a'r neuaddau preswyl. Mae cyfrifiaduron i fyfyrwyr eu defnyddio ar gael mewn llyfrgelloedd ac ystafelloedd cyfrifiaduron ar draws y campws, mewn neuaddau preswyl ac yn y dref, ac mae llawer ohonynt ar gael 24/7. Mae'r mannau hyn yn cynnwys argraffwyr, gyda swyddogaethau llungopio a sganio, a hybiau monitor i fyfyrwyr eu defnyddio gyda'u gliniaduron eu hunain. Mae offer arall ar gael i'w fenthyl, er enghraifft recordwyr llais a recordwyr fideo i gefnogi eich astudiaethau.

Blackboard yw Amgylchedd Dysgu Rhithwir (VLE) y Brifysgol - gwefan ar-lein ar gyfer pob cwrs sy'n cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau i gefnogi dysgu ac addysgu. Trwy Blackboard, gall myfyrwyr gael mynediad at adnoddau fel recordiadau o ddarlithoedd, cyflwyniadau a rhestrau darllen unrhyw bryd, yn ogystal â chyflwyno eu gwaith cwrs.



Cefnogi ein myfyrwyr

Mae lles ein myfyrwyr yn flaenoriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi ein myfyrwyr. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion academaidd, pryderon ariannol, anawsterau corfforol ac emosiynol, a mwy.

Tiwtoriaid Personol

Mae tiwtor personol yn cael ei roi i bob myfyriwr o blith staff academaidd eu hadran. Rôl y tiwtoriaid personol yw:

- cynorthwyo eu myfyrwyr i ymgysgu â bywyd yn y brifysgol
- trafod a thywys eu cynnydd academaidd
- eu cefnogi a'u hannog yn ystod eu hastudiaethau.



Cymorth a lles myfyrwyr

Mae ein tîm o gynghorwyr arbenigol yn darparu lle diogel ac yn gwarantu cyfrinachedd fel y gall myfyrwyr siarad am unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gallu i astudio. Mae ein gwasanaethau cymorth yn cynnwys:

Y Gwasanaeth Cyngor ac Arian

Cynigir cymorth gyda phob math o faterion, gan gynnwys arian, cynnydd academaidd a bywyd yn y brifysgol.

Y Gwasanaeth Hygyrchedd

Sicrhau bod bywyd y brifysgol yn hygyrch i bawb, gyda chymorth i fyfyrwyr ag anableddau, y rhai sydd ag anghenion dysgu penodol, y rhai sy'n gadael gofal ac unigolion eraill sydd heb gefnogaeth, megis myfyrwyr traws ac anneuaidd.

Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr

Defnyddir technegau arbennig i fagu gwydnwch myfyrwyr a'u cynorthwyo i reoli eu lles tra byddant yn y brifysgol, ac ar ôl hynny.

Cyngor ar Fisau a Mewnfudo

Darperir cyngor arbenigol ar fisau astudio i ddarparu fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr rhyngwladol presennol.

Llinell nos

Gwasanaeth gwrandio annibynnol sy'n cael ei gynnal gan fyfyrwyr i fyfyrwyr. Mae'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth e-bost a negeseua cyflym.

Cymorth llety

Yn ein llety, mae gennym dîm penodol o Gynorthwywyr Llety, sef cyd-fyfyrwyr sy'n rhoi cymorth ac arweiniad, gyda'r nod o greu amgylchedd cadarnhaol i fyw a dysgu ynddo. Os na all y Cynorthwywyr Llety helpu, byddant yn eich cyfeirio at rywun sy'n gallu.



Gyrfaedd a chyflogadwyedd

Ein nod yw sicrhau bod ein myfyrwyr yn graddio gyda'r profiadau academaidd, proffesiynol ac ymarferol i'w helpu i sefyll allan yn y farchnad swyddi a sicrhau cyflogaeth ystyrlon.

Mae ein Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad ar ddatblygu sgiliau, ennill profiad proffesiynol a gwneud cais am swyddi.

Mae'r Gwasanaeth:

- Yn darparu cymorth o ran datblygu CV, gwneud cais am swyddi a chyfweiliadau
- Yn cynnal digwyddiadau gyrfaedd mawr lle gall myfyrwyr gwrdd â darpar gyflogwyr
- Yn cynnal gweithdai cyflogadwyedd a rhaglen Cymorth i Baratoi am Yrfa
- Yn cynorthwyo myfyrwyr i ystyried entrepreneuriaeth a menter
- Yn darparu cymorth ac arweiniad ar ôl graddio, am gyfnod penodol.

Profiad Gwaith

Mae nifer o gyrsiau yn cynnig blwyddyn integredig mewn diwydiant a gall myfyrwyr gael mynediad at Gynllun Blwyddyn mewn Gwaith y Gwasanaeth Gyrfaedd, sy'n rhoi profiad proffesiynol perthnasol i ddysgwyr sy'n ategu eu hastudiaethau. Gall y Gwasanaeth hefyd helpu i nodi cyfleoedd profiad gwaith tymor byrrach, fel interniaethau haf, lleoliadau gwaith a gwaith rhan-amser.

Mae gan y Brifysgol gysylltiadau ag amrywiaeth o gyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan alluogi ein myfyrwyr i gysylltu â chyflogwyr blaenllaw ar draws sectorau.

Ffioedd a chyllid

Ffioedd Dysgu

Mae eich ffioedd dysgu yn talu costau eich astudiaeth yn y brifysgol, ac yn cynnwys taliadau am bethau megis arholiadau a graddio.

Bydd lefel y ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar p'un a ydych chi'n fyfyrwr o'r DU neu yn fyfyrwr rhyngwladol. Gall ffioedd myfyrwr rhyngwladol hefyd amrywio yn ôl eich pwnc, p'un a ydych yn astudio pwnc yn y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol neu bwnc Gwyddonol.



Sganiwch yma am ragor o wybodaeth am ffioedd dysgu.

aber.ac.uk/ffioedddysgu

Taliadau Ychwanegol

Efallai y bydd costau a thaliadau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich ffioedd dysgu yn gysylltiedig â'ch rhaglen radd. Bydd y rhain fel arfer am weithgareddau megis teithiau maes neu ymweliadau astudio ond, yn dibynnu ar y rhaglen radd yr ydych wedi ei dewis, gallai gynnwys eitemau neu offer y bydd angen i chi eu prynu megis cyfrifiannell wyddonol neu gôt ar gyfer gwaith labordy.



Sganiwch yma am ragor o wybodaeth am gostau a thaliadau ychwanegol.

aber.ac.uk/ffioeddychwanegol

Cerdyn Rheilffordd

Rydym yn cynnig Cerdyn Rheilffordd 16-25 un-flwyddyn am ddim i fyfyrwr israddedig y flwyddyn gyntaf a fydd yn darparu traean oddi ar brisiau teithio ar drên ledled y DU. Rydym yn deall y gall costau teithio fod yn ddrud, a dyna pam rydym am i'n myfyrwr fwynhau prisiau tocynnau trên gostyngol wrth iddynt deithio i Aberystwyth (a thu hwnt!).



Ffioedd am Lety

Codir ffioedd am lety yn ychwanegol i'ch ffioedd dysgu. Gweler t.58.

Benthyciadau i fyfyrwr

Er mwyn eich helpu gyda ffioedd dysgu a chostau byw gall myfyrwr o'r DU fod yn gymwys i gael benthyciadau neu grant myfyrwr. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein.

- Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, gweler www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk
- Os ydych yn byw yn Lloegr fel arfer, gweler www.slc.co.uk
- Os ydych yn byw yn yr Alban fel arfer, gweler www.saas.gov.uk
- Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon fel arfer, gweler www.studentfinanceni.co.uk

Ffynonellau eraill o gyllid

Efallai y bydd modd i chi gael cyllid ychwanegol o rywle arall. Mae'r opsiynau posib yn cynnwys ysgoloriaethau (gweler t.75), nawdd, gweithio'n rhan-amser neu gymynroddion elusennol.

Gall myfyrwr sydd ag anableddau fod yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwr Anabl, ac efallai y bydd grant ychwanegol ar gael ar gyfer costau teithio.

Gall ein Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwydd ac Undeb y Myfyrwr roi cyngor i chi ar gyllidebu a lle i ddod o hyd i waith rhan-amser yn ystod y gwyliau neu ochr yn ochr â'ch astudiaethau.

Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Yn Aberystwyth, rydym yn deall goblygiadau ariannol addysg uwch. Diolch i gefnogaeth hael cyn-fyfyrwr a chyfeillion, rydym wedi gallu cynnig ysgoloriaethau ers 125 o flynyddoedd a mwy ac rydym yr un mor ymroddedig ag erioed i gefnogi ein myfyrwr. Edrychwch isod am fanylion am rhai o'n ysgoloriaethau a'n gwobrau.

Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth

Gwerth hyd at £1,000 y flwyddyn a chynnig diamod. Mae'n golygu sefyll dau arholiad yn eich ysgol neu goleg.

Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd

Gwerth £2,000 yn eich blwyddyn gyntaf.

Er mwyn gwobrwyo rhagoriaeth academaidd a gyflawnwyd cyn dechrau yn y Brifysgol. Bydd y gwobrau'n cael eu clustnodi'n awtomatig i'r myfyrwr cymwys.

Dyfarniadau i Bynciau Penodol

Mae'r gwerth yn amrywio o ran symiau.

Mae nifer o'n hadrannau academaidd yn cynnig Dyfarniadau Adrannol.

Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg

Gwerth hyd at £400 y flwyddyn.

Yn cael ei rhoi yn awtomatig i'r rhai sy'n astudio o leiaf rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.



Noder y gallai'r rhestr hon o ysgoloriaethau a bwrsariaethau newid ar gyfer blynyddoedd academaidd i ddod.

Ceir rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar aber.ac.uk/ysgoloriaethau neu sganiwch y cod QR hwn.



Diwrnodau agored

Dewch i ddiwrnod agored i ddysgu mwy am astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Diwrnodau agored 2026

- Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf
- Dydd Sadwrn 10 Hydref
- Dydd Sadwrn 7 Tachwedd


Ewch i'r wefan am ddyddiadau diwrnodau agored yn 2027 ac am fanylion unrhyw ddigwyddiadau ar-lein.



aber.ac.uk/diwrnodauagored

Ymweld ag Aber

Daw myfyrwyr o bell ac agos i Brifysgol Aberystwyth – gallwch gwrdd â myfyrwyr o bob rhan o'r byd yma. Bydd y croeso cynnes sy'n eich disgwyl a'r adnoddau rhagorol sydd gennym ar eich cyfer yn gwneud eich ymweliad yn un gwerth chweil.



Sut i gyrraedd...

Ar y Trên

Mae'r orsaf reilffordd yng nghanol Aberystwyth. Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn teithio o'r orsaf i gampws Penglais, ac mae gwasanaeth tacsï gerllaw hefyd.

Mewn Car

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar yr A487 sy'n rhedeg rhwng De a Gogledd Cymru. Taith o ychydig dros ddwy awr ar y mwyaf yw hi i Aberystwyth o'r De neu o'r Gogledd.

Ar Fws

Mae sawl gwasanaeth bws (Megabus, National Express) yn rhedeg i'r campws o dde a gogledd Cymru, yn ogystal â chanolbarth Lloegr a Llundain.

Aros dros nos

Os hoffech aros dros nos mae digon o leodd ar gael yn Aberystwyth. Cewch restr o gyfeiriadau gan y Swyddfa Gwybodaeth i Ymwelwyr (ffôn: +44 1970 612125).

Os byddwch yn ymweld yn ystod gwyliau'r Brifysgol gall llety myfyrwyr fod ar gael ar eich cyfer (yn ystod Ebrill, Mehefin, Gorffennaf ac Awst). Cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau ar +44 1970 621960, neu e-bostiwch cynadleddau@aber.ac.uk.

Gwybodaeth bwysig

- Darllenwch yn ofalus

Y mae'n amod cofrestru ei bod yn rhaid i bob myfyriwr dderbyn a chadw at drefniadaeth y Brifysgol fel y'i nodir yn y Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr, a'n Telerau ac Amodau. Gellir cael copi o'r Rheolau, Rheoliadau a Gwybodaeth i Fyfyrwyr sydd mewn grym ar hyn o bryd trwy gysylltu â'r Gofrestrfa Academaidd (+44 1970 622959).

Mae'r Brifysgol yn cyflwyno'r wybodaeth yn y prospectws hwn fel canllaw yn unig. Nid yw'r wybodaeth yn y prospectws hwn yn creu contract ac nid yw'n rhwymo darpar fyfyrwyr na'r Brifysgol. Er bod y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i wirio cywirdeb y cynnwys ffeithiol ar adeg cyhoeddi, bydd rhai newidiadau yn digwydd yn anorfod rhwng cyhoeddi a dechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r prospectws yn ymdrin â hi. Er enghraifft, gall cyrsiau, gofynion mynediad a chynigion nodweddiadol newid yn ôl y galw gan fyfyrwyr, gofynion allanol a datblygiadau ymchwil. Ni ddylai ymgeiswyr ddibynnu'n llwyr felly ar yr wybodaeth yn y prospectws hwn a dylent fynd i wefan y Brifysgol (www.aber.ac.uk) i gael manylion y sefyllfa ddiweddaraf o ran cynnwys y cyrsiau, achredu a gofynion mynediad ar gyfer y flwyddyn y maent yn ystyried gwneud cais i'r Brifysgol.

Ni fydd y Brifysgol yn rhoi gradd, diploma, tystysgrif na chymhwyster i unrhyw fyfyrwr sydd â ffioedd heb eu talu tan i'r ddyled gael ei thalu. Bydd y myfyrwyr hyn yn cael eu hatal rhag ailgofrestru yn y Brifysgol ac ni fyddant yn cael defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

Noder: Mae Prifysgol Aberystwyth yn cadw'r hawl i addasu'r gofynion mynediad a oedd yn gywir pan argraffwyd y prospectws israddedig (Ionawr 2026).

Y mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Ionawr 2026.

Wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan yr Adran Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, 2026.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig. Rhif 1145141.

ABERYSTWYTH ABWTH A40

Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3DD



+44 (0) 1970 622021
+44 (0) 1970 623111



derbyniadau@aber.ac.uk



@prifaber.bsky.social



/Prif.Aberystwyth



@prifysgol.aberystwyth



@prifysgol_aberystwyth



/prifysgolAberystwyth



Sganiwch y cod QR hwn
am fwy o wybodaeth
am ein cyrsiau.

aber.ac.uk/ein-cyrsiau

